# Darparu tyliniad o’r corff gan ddefnyddio technegau therapi gwresol

## Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1Gweithredu a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol*a* *SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig.****Mae'r safon yma ar gyfer rhywun proffesiynol ym maes harddwch sy'n darparu triniaethau tylino'r corff gan ddefnyddio technegau therapi gwresol. Mae cyfarpar therapi gwresol yn cynnwys offer llaw neu baratoadau sy'n rhyddhau tymheredd. Mae nhw'n gofyn am gael eu cynhesu neu oeri cyn ac yn ystod y driniaeth. Bydd gofyn i chi hefyd wneud gwerthusiad ar ôl y driniaeth ac adfyfyrio er mwyn gwelliant parhaus. Bydd rhaid i ddefnyddwyr y safon yma wneud yn siwr bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau a gweithdrefnau diweddaraf a chyfarwyddyd am arfer orau. Cynghorir defnyddwyr y safon yma i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio gyda gofynion cymorth cyntaf yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol.

**Y prif ddeilliannau yw:**

1. Darparu triniaeth tylino'r corff gan ddefnyddio technegau therapi gwresol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn

   1.
   cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, gorchmynion a chanllawiau
   2.
   trafod a sefydlu amcanion yr unigolyn, ei bryderon am ei gorff a'i groen, ei ddisgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno er mwyn hysbysu'r cynllun triniaeth tylino gwresol y corff, i gynnwys:

3.1 hanes triniaethau

3.2 hanes profiad

3.3 gweithgareddau diweddar

3.4 y gyfundrefn gyfredol ar gyfer gofal o'r croen

3.5 **proffil y ffordd o fyw**

3.6 dewisiadau triniaeth amgen

   1. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, eu bod wedi deall y drinaeth tylino therapi gwresol, i gynnwys:

4.1 canlyniadau disgwyliedig
4.2 gwrth-weithredoedd

4.3 **adweithiau niweidiol**

4.4 teimlad corfforol

5. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus yr unigolyn ar gyfer triniaeth tylino therapi gwresol corff yn unol â gofynion cyfundrefnol ac yswiriant

   1.
   cynnal prawf(profion) o flaen y driniaeth er mwyn penderfynu sensitifrwydd y croen
   2.
   paratoi a glanhau man triniaeth yr unigolyn  yn unol â'r **protocol triniaeth tylino**

**therapigwresol**, i gynnwys:

7.1 cadw'r unigolyn yn gyfforddus a chadw ei urddas

1. gwneud dadansoddiad o'r corff a'r croen, i gynnwys:

8.1 dosbarthiad o'r math o gorff a **nodweddion y corff****

8.2 dadansoddiad o'r ystumiau

1. dewis a pharatoi'r **offer llaw a'r cyfarpar** a'r tymheredd ar gyfer y therapi gwresol, yn unol â'r protocol triniaeth tylino therapi gwresol, i gynnwys:

9.1 gwirio’r tymheredd yn aml

9.2 addasiadau yn unol â man triniaeth yr unigolyn

1. hyrwyddo lles drwy weithio gyda phwyntiau chakra'r unigolyn

**Tylino**

1. dodi'r **cyfrwng tylino** a chyflawni tylino'r corff gan ddefnyddio technegau therapi gwresol, fel ag y cytunwyd yn y cynllun triniaeth therapi gwresol, i gynnwys:

11.1 cynnal eich ystumiau a'ch safiad eich hun

11.2 defnyddio technegau sy'n osgoi anaf i'r unigolyn

1. gwirio pwysedd, rhythm a llif y tylino therapi gwresol gyda'r unigolyn ac addasu'r **technegau tylino therapi gwresol** yn unol ag anghenion yr unigolyn
2. monitro iechyd, lles ac adwaith croen yr unigolyn drwy gydol y driniaeth tylino therapi gwresol
3. gweithredu yn y modd cywir os bydd adwaith niweidiol
4. cwblhau'r driniaeth yn unol â'r protocol triniaeth tylino therapi gwresol, gofynion deddfwriaethol a pholisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol
5. cwblhau cofnodion triniaeth yr unigolyn a'u cadw'n unol â deddfwriaeth data
6. defnyddio ymarfer adfyfyriol er mwyn gwerthuso'r driniaeth tylino therapi gwresol a gweithredu'n briodol

7.

rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn cyn ac ar ôl y driniaeth

19. cofnodi canlyniad y driniaeth tylino therapi gwresol a’r gwerthusiad ohoni

*

*

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau pan yn darparu triniaethau tylino therapi gwresol a phwysigrwydd gweithio o fewn eich gallu

1. pam bod rhaid i chi gydymffurfio ag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu'r awdurdod lleol i chi eich hun a'ch adeilad

1.
pwysigwrydd ymwneud â, a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus i gynnwys, polisïau gwybodaeth, gweithdrefnau a chyfarwyddyd am yr arfer orau ddiweddaraf
2.
yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma
3.
y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r driniaeth harddwch, i gynnwys: 5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis a chyfeirio meddygol
4.
pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd amheus ac anafiadau ar y croen, a chyfeirio at rywun proffesiynol perthnasol ym maes gofal iechyd

7. diben triniaeth tylino therapi gwresol, y defnydd ohoni a’i chyfyngiadau, mewn perthynas â’r canlynol:

7.1 hanes meddygol o'r gorffennol a chyfredol

7.2 proffil perthnasol y ffordd o fyw

7.3 meddyginiaeth a chyflyrau meddygol

7.4 diffygion a chyflyrau ystumiol

8. yr adweithiau niweidiol sy’n gysylltiedig â thriniaeth tylino therapi gwresol a sut i ymateb iddynt

1.
y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y

driniaeth tylino therapi gwresol
2.
pam ei bod yn bwysig trafod ac adnabod amcanion, pryderon disgwyliadau'r unigolyn a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun triniaeth tylino therapi gwresol

11. y gofynion cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau harddwch i blant dan oed ac oedolion bregus

1. y strwythurau talu a dewisiadau ar gyfer triniaeth

13. y gofynion deddfwriaethol a digollediad er mwyn sicrhau cydsyniad gwybodus wedi’i lofnodi ar gyfer triniaeth tylino therapi gwresol

1.
pwysigrwydd cadw at y protocol triniaeth tylino therapi gwresol
2.
sut i wneud profion cyn triniaeth a'u dehongli
3.
pa mor aml dylid darparu triniaethau tylino therapi gwresol a'r effaith allant ei gael ar iechyd a lles yr unigolyn proffesiynol, i gynnwys:

16.1 ffyrdd y gellir osgoi risgiau i iechyd a lles

16.2 osgoi anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith

16.3 cadw eich lles personol chi

1. pwysigrwydd cadw ystum a safiad eich corff drwy gydol triniaeth dylino therapi gwresol, i gynnwys:

17.1 cefnogi llif ac effeithiolrwydd y driniaeth

1. cadw'r unigolyn yn gyfforddus a gofalu amdano/i drwy gydol y driniaeth yn unol â thyliniad therapi gwresol, i gynnwys:

18.1 sicrhau bod yr amgylchedd yn hyrwyddo tawelu neu symbylu canfyddiadau amlsynhwyrol y corff yn unol â'r protocol triniaeth tylino therapi gwresol

1. pwysigrwydd gwneud dadansoddiad o'r corff a'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun triniaeth therapi gwresol

20. pam ei bod yn bwysig nodi diffygion a chyflyrau ystumiol yr unigolyn a sut ellir eu gwella

1. y mathau o gynnyrch glendid ar gyfer y croen a phwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys:

21.1 addasiadau yn dibynnu ar fan triniaeth yr unigolyn

1. y cyfryngau tylino a ddefnyddir gyda thriniaeth tylino therapi gwresol a'u heffeithiau, i gynnwys:

22.1 pryd mae hi'n briodol gwneud tyliniad therapi gwresol heb ddefnyddio cyfrwng tylino

1. y mathau o gyfarpar therapi gwresol sydd ar gael, i gynnwys:

23.1 y rhesymau pam na ddylid defnyddio therapi gwresol mewn modd statig ar y croen a pham bod angen symudiadau cyson

1. y mathau o, manteision a chyfyngiadau defnyddio technegau therapi gwresol mewn triniaeth dylino, i gynnwys:

24.1 y manteision cysylltiedig ac osgoi anafiadau sy'n gysylltiedig â gwaith 24.2 risgiau cysylltiedig a sut i ymateb

1.
y mathau o dechnegau tylino therapi gwresol a'u heffeithiau
2.
sut y gall technegau tylino therapi gwresol gael eu haddasu i greu effeithiau therapiwtig
3.
sut i baratoi a defnyddio cynnyrch, offer a chyfarpar yn unol â'r protocol triniaeth tylino therapi gwresol

28. pam ei bod yn bwysig egluro'r broses driniaeth a'r teimlad a ddaw yn ei sgil i'r unigolyn

1.
pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth
2.
pwysigrwydd rhoi amser i'r unigolyn i ymadfer ar ôl triniaeth tylino therapi gwresol

31. y rhesymau dros gymryd delweddau gweledol gyda chydsyniad o fan triniaeth yr unigolyn, a'u cadw yn unol â gofynion y gwasanaeth, a'r rhai deddfwriaethol, yswiriant a chyfundrefnol

1.

y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ar gyfer cwblhau a chadw cofnodion triniaeth tylino therapi gwresol yr unigolyn

2.

canlyniadau disgwyliedig triniaethau tylino therapi gwresol

3.

diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a sut y mae'n darparu gwybodaeth ar gyfer triniaethau yn y dyfodol

35. pwysigrwydd cofnodi canlyniad y driniaeth tylino therapi gwresol a’r gwerthusiad ohoni

1. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y driniaeth tylino therapi gwresol

## Cwmpas/Ystod